Datganiad o Fwriad Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer ECO4 Cymhwysedd Hyblyg

Enw’r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad Cyhoeddi: 05/01/2023

Rhif y fersiwn: F 2.0

Ar y wefan: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/gwybodaeth-a-chymorth-ariannol/cynlluniau-effeithlonrwydd-ynni/cyllid-hyblygrwydd-eco/

Mae’r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO4) o fis Ebrill 2022 hyd fis Mawrth 2026.

Prif amcan cynllun ECO4 yw cefnogi cartrefi sydd ar incwm isel neu sy’n fregus. Bydd y cynllun yn gwella’r tai lleiaf ynni-effeithlon ac yn helpu i ddiwallu ymrwymiadau’r Llywodraeth o ran tlodi tanwydd a charbon sero net.

"ECO4 Flex" yw enw dull hyblyg yr Awdurdodau Lleol o nodi cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd ac sy’n fregus ac a allai elwa o fesurau gwresogi ac arbed ynni.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn croesawu cyflwyno llwybrau cymhwysedd ECO4 Flex gan eu bod yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei gynlluniau i wella cartrefi pobl sydd mewn tlodi tanwydd neu sy'n fregus yn yr oerfel.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad hwn o Fwriad (SoI), ar **05/01/2023** i gadarnhau y bydd pob un o'r cartrefi a gaiff eu datgan yn cadw at o leiaf un o'r tri llwybr sydd ar gael, isod:

Llwybr 1: Bandiau D-G o ran EPC/SAP ar gyfer cartrefi yn berchen i’r meddiannydd, a chartrefi E-G yn y sector rhentu preifat, gydag incwm gros o lai na £31,000. Mae'r cap hwn yn berthnasol waeth beth yw maint yr eiddo, ei gyfansoddiad, neu ranbarth.

Llwybr 2: Bandiau E-G o ran EPC/SAP ar gyfer cartrefi yn berchen i’r meddiannydd a chartrefi yn y sector rhentu preifat sy'n cwrdd â chyfuniad o ddau o'r procsis canlynol:

Procsi 1) Cartrefi yng Nghymru ar LSOA 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.[1]
Procsi 2) Deiliaid tai sy'n derbyn gostyngiad Treth y Cyngor (ar sail incwm isel yn unig).
Procsi 3) Deiliaid tai sy'n agored i fyw mewn cartref oer fel y nodwyd yng Nghanllawiau NICE (Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal). Dim ond un o'r rhestr y gellir ei defnyddio, ac eithrio'r procsi ‘incwm isel’.
Procsi 4) Deiliad tŷ sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel.
Procsi 5) *****Deiliad tŷ a gefnogir gan gynllun sy’n cael ei redeg gan yr Awdurdod Lleol, sydd wedi'i enwi a'i ddisgrifio gan yr Awdurdod fel un sy’n cael cefnogaeth ar gyfer incwm isel ac aelwydydd bregus at ddibenion Canllawiau Nice.
Procsi 6) Aelwyd a gyfeiriwyd at yr Awdurdod Lleol am gymorth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth am eu bod wedi'u nodi fel rhai sy'n ei chael hi’n anodd talu eu biliau trydan a nwy.

*** Noder - Ni ellir defnyddio Procsis 1 a 3 gyda'i gilydd.**

*** Nodwch nad yw dirprwy 5 ar gael. Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn rhedeg cynllun sy'n bodloni'r meini prawf hyn.**

Llwybr 3: Cartrefi Bandiau D-G o ran EPC/SAP ar gyfer cartrefi yn berchen i’r meddiannydd a chartrefi E-G yn y sector rhentu preifat sydd wedi’u nodi gan eu meddyg neu feddyg teulu fel rhai bregus, gyda meddiannydd sy’n dioddef o gyflwr iechyd difrifol neu hirdymor a waethygir drwy fyw mewn cartref oer. Rhaid i’r cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, anadlol, imiwnoddiffygiol, neu'n gysylltiedig â symudedd cyfyngedig.

1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn i’r mynegai gyda graddfeydd): 2019 2019 | LLYW.CYMRU

Datganiad a chadarnhad o’r gwirio tystiolaeth

Dylai pob cartref a allai fod yn gymwys wneud cais drwy un o’r gosodwyr/darparwyr ECO4 Flex sy’n gymeradwy gan Gyngor Sir Ceredigion, i wneud yn siŵr y gallant naill ai elwa o'r cynllun neu gael eu hasesu i fod yn gymwys o dan ryw raglen berthnasol arall. Nid yw’r Cyngor yn derbyn atgyfeiriadau oddi wrth ffynonellau neu drydydd partïon sydd ddim ar restr gymeradwy’r Cyngor o osodwyr/darparwyr ECO4 Flex.

Bydd y swyddog isod yn gyfrifol, ar ran yr awdurdod lleol, am wirio a chadarnhau datganiadau a thystiolaeth gysylltiedig a gyflwynir:

Enw: Gareth Payne

Teitl Swydd: Swyddog Effeithlonrwydd Ynni ac Addasiadau Tai

Ffôn: 01545 572105 **E-bost:** desh.housing@ceredigion.gov.uk

Llofnod gorfodol y Prif Swyddog Gweithredol neu’r person cyfrifol penodedig

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweinyddu'r cynllun yn ôl Gorchymyn ECO4 BEIS a bydd yn nodi’r cartrefi cymwys drwy broses ymgeisio Ofgem. Bydd Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys o dan gynllun ECO4 Flex. Bydd y wybodaeth ynghylch cymhwysedd yn cael ei chadw’n ddiogel yn unol â pholisi diogelu data'r Cyngor, Côd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer Rhannu Data, a chanllawiau BEIS.

Llofnod:

Enw: Mr.Eifion Evans

Teitl Swydd: Prif Weithredwr

Dyddiad y llofnod: 22.12.22

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â’r Datganiad o Fwriad hwn, cysylltwch â desh.housing@ceredigion.gov.uk